# YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

**DYDD** Mawrth, 11 Gorffennaf 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
C. Owen, Swyddog Biwro;
M. E. Pemberton, Cydlynydd Rhaglen LEADER;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 11.00 yb

**1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 17 MAI 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2023, yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR, CRONFA BUDD CYMUNEDOL MYNYDD Y BETWS AR CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cyllid, Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws a Dargedir a'r Cronfa Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Y Gronfa Cyllid a Dargedir | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Ferryside Social Enterprise Group | £20,000.00 |
| Brynamman Public Hall & Institute | £20,000.00 |

| Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Initiative for Nature Conservation Cymru (INCC) | £11,838.57 |
| Penygroes Rugby and Community Sports Association | £10,000.00 |
| Ystradowen community support for services | £13,041.60 |
| Friends Of Tycroes Parks | £2,124.80 |
| Ammanford Town Council | £15,000.00 |
| Ammanford Foodbank | £3,980.20 |

| Cronfa'r Degwm | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Brynamman Public Hall and Institute | £3,000.00 |

4. **CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA ARLOESI GWLEDIG**

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod y ceisiadau canlynol am gymorth gan y Gronfa Arloesi Gwledig yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar y telerau ac amodau arferol a'r rheiny a nodwyd yn yr adroddiad:**

| Yr Ymgeisydd | Y Dyfarniad |
|---|---|
| The One Planet Centre | £37,000.00 |
| Actif Communities, Carmarthenshire County Council | £45,000.00 |
| Social Farms & Gardens | £44,571.00 |
| Ynni Sir Gâr | £39,950.00 |
| Tetrim Teas Cyf | £44,588.00* |

[ * Diwygiwyd yn y cyfarfod]]

**4.2 nad yw'r ceisiadau canlynol am gymorth gan y Gronfa Arloesi Gwledig yn cael eu cefnogi gan nad ydynt yn cyd-fynd â meini prawf allweddol y gronfa a, lle bo'n briodol, fod yr ymgeisydd yn cael ei gyfeirio at gyfleoedd cyllido eraill sy'n fwy addas i weithgarwch y prosiect:**

| Yr Ymgeisydd |
|---|
| CETMA |
| The Family Foundation |
| Potential to Succeed CIC |
| Kidwelly Hub CIC |
| Trimsaran Community Council |

5. **CRONFA ADFYWIO STRYD FAWR Y 10 TREF**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i adroddiad ar y bwriad i greu cynllun grant trydydd parti newydd fel rhan o gynnig gwell rhaglen y Deg Tref ar gyfer trefi marchnad gwledig y sir. Byddai Cronfa Adfywio Canol Trefi Gwledig y Deg Tref yn cynnig cyfle i safleoedd canol tref, sydd wedi'u lleoli ar y stryd fawr wledig, wneud cais am gyllid i gynorthwyo o ran adnewyddu ac adfywio blaen eu safle. Byddai'r gronfa yn agored i safleoedd a dargedwyd mewn ardaloedd dynodedig ar draws deg tref wledig y sir. Roedd yr adroddiad yn manylu ar feini prawf y gronfa a'r broses ymgeisio.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 cymeradwyo creu cynllun grant trydydd parti newydd, sef Cronfa Adfywio Canol Trefi Gwledig y Deg Tref, fel rhan o raglen y Deg Tref i gefnogi bywiogrwydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r canol trefi hyn;**

**5.2 dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu cyllid i'r Pennaeth Adfywio.**

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**